BRITISH COUNCIL

UKaid
from the British people

CONNECTING CLASSROOMS

Sut gallwn ni gynyddu ymwybyddiaeth o effaith newid hinsawdd?

Nodau Datblygu Cynaliadwy: 13 Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd; 14 Bywyd o dan y Dŵr

www.britishcouncil.org/connectingclassrooms

Sut gallwn ni gynyddu ymwybyddiaeth o effaith newid hinsawdd?

Nodau Datblygu Cynaliadwy: 13 Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd; 14 Bywyd o dan y Dŵr

CYFLWYNIAD

DYdych chi a'ch disgyblion yn meddwl am yr effaith y mae newid hinsawdd yn ei chael ar ein planed a'n dyfodol?

Mae digwyddiadau tywydd eithafol, fel tonnau gwres, llifogydd, a chorwyntoedd yn dod yn fwy cyffredin ac yn cael effeithiau dinistriol ar gymunedau ledled y byd. Mae'r rhybudd diweddaraf gan brif wyddonwyr hinsawdd y byd yn awgrymu mai dim ond 12 mlynedd sydd ganddon ni i gadw cynhesu byd-eang o dan 1.5°C.

Mae 17 Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn ceisio cyflawni dyfodol gwell a mwy cynaliadwy i bawb, drwy gyflawni tri pheth erbyn 2030:

- Rhoi diwedd ar dlodi eithafol
- Brwydro yn erbyn anghydraddoldeb ac anghyfiawnder
- Diogelu'r blaned

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan bobl ifanc o gwmpas y byd o ran codi ymwybyddiaeth a gweithredu yn erbyn newid hinsawdd, a diogelu ecosystemau morol ac arfordirol. Mae'n cynnwys heriau y gellir eu haddasu i oedrannau a diddordebau'ch disgyblion a'u cwblhau gyda'ch ysgol bartner, gan rannu barn, syniadau a chanlyniadau dros dechnoleg gyfathrebu a llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol.

Beth allwn ni ei wneud gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth fel rhan o'r Nodau Byd-eang?

Gall camau bach wneud gwahaniaeth mawr.

Amcanion dysgu: Cynyddu ymwybyddiaeth o effaith newid hinsawdd, cynnal arbrawf i ddangos sut mae dŵr cynhesach yn achosi cynnydd yn lefelau'r môr, a chreu ymgyrch yn y wasg i hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â newid hinsawdd.

Sgiliau craidd a throsglwyddadwy: Cyfathrebu a chydweithio, creadigrwydd, dinasyddiaeth ac arweiniad disgyblion, llythrennedd digidol, datrys problemau a meddwl yn feirniadol.

Pynciau: Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth, Astudiaethau'r Cyfryngau a Daearyddiaeth.

Adnoddau: Mynediad at y rhyngrwyd, taflunydd, deunyddiau ar gyfer arbrawf gwyddonol.

HER 1
Ysgrifennwch araith i dynnu sylw at un o effeithiau newid hinsawdd

Cyn addysgu'r sesiwn hon, byddai'n ddefnyddiol pe bai gan y disgyblion ddealltwriaeth o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, ynghyd ag achosion a chanlyniadau newid hinsawdd. I ddechrau, efallai y gallwch ddangos darn byr o raglen ddiweddar David Attenborough iddyn nhw

Climate Change: The Facts, sydd ar gael drwy: https://www.bbc.co.uk/programmes/p076w7g5

Fel arall, dylech edrych ar rai o'r dogfennau gwyddonol o'r adran *Dysgu Mwy* ar ddiwedd yr adnodd.

Does neb yn rhy fach i wneud gwahaniaeth.

Daeth y disgybl o Sweden, Greta Thunberg, i'r amlwg pan benderfynodd beidio â mynd i'r ysgol bob dydd Gwener er mwyn sefyll y tu allan i senedd Sweden i brotestio yn erbyn diffyg gweithredu dros yr argyfwng hinsawdd. Mae hyn wedi arwain at ymgyrch fyd-eang, lle mae miliynau o blant ledled y byd wedi dilyn ei chamau.

Er ei bod hi'n dal i fod yn yr ysgol, mae Greta wedi cael ei gwahodd i siarad â gwleidyddion ac arweinwyr busnes ledled y byd, gan gael sylw yn y wasg ac enwebiad ar gyfer Gwobr Heddwch Nobel yn 2019.

Gall areithiau effeithiol archwilio syniadau a newid y byd, ac mae Greta wedi siarad am weithredu dros yr hinsawdd a'r angen i ddiogelu'r ddaear mewn llawer o lefydd, gan gynnwys cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig a San Steffan.

*Adroddiad gan Banel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (IPCC) 2019.

Mae 11 o'i hareithiau bellach wedi cael eu casglu at ei gilydd mewn llyfryn o'r enw *No One Is Too Small to Make a Difference.*

Helpwch eich disgyblion i wneud rhywfaint o ymchwil i achosion a chanlyniadau newid hinsawdd, a gofynnwch iddyn nhw lunio araith fer, sy'n cyflwyno eu canfyddiadau ac yn perswadio eraill i weithredu.

Mae areithiau sy'n dwyn perswâd yn aml yn defnyddio technegau fel:

- Ailadrodd
- Rheol y tri (ailadrodd rhywbeth deirgwaith i'w bwysleisio)
- Cwestiynau
- Rhestrau
- Y gwrthwyneb

Rhannwch enghreifftiau o'r dyfeisiau rhethregol hyn, ac anogwch eich disgyblion i'w defnyddio yn eu hareithiau. Mae cyngor pellach ar gael ar wefan Diwrnod Areithiau'r Byd, sy'n dathlu areithiau ac areithio. Mae hwn ar gael drwy: http://www.worldspeechday.com/

Gallech gyhoeddi eich areithiau neu eu recordio neu eu ffilmio, a'u rhannu gyda'ch ysgol bartner. Efallai y gallech roi cynnig ar gystadleuaeth ysgrifennu areithiau'r British Council ar gyfer Diwrnod Areithiau'r Byd.

HER 2
Cynnal arbrawf i ddangos sut mae dŵr sy'n cynhesu yn codi lefelau'r môr

Mae tystiolaeth wyddonol hefyd yn awgrymu bod tymereddau byd-eang yn cynyddu, a bod lefelau'r môr yn codi. Wrth i foroedd a chefnforoedd amsugno gwres o'r aer cynhesach, mae eu tymereddau nhw hefyd yn cynyddu. Wrth i dymheredd cefnfor neu fôr godi, mae'r dŵr yn ehangu'n araf ac mae newid yn digwydd i'w gyfaint, sy'n cyfateb i'r newid yn nhymheredd y dŵr.

Gall hyn arwain at lifogydd mewn ardaloedd arfordirol isel; a gall hefyd gyflymu'r erydiad arfordirol, gan achosi dinistr i gynefinoedd bywyd gwyllt. Gall lefel y cynnwys halen yn y dŵr newid hefyd. Gall hyn effeithio ar y cnydau sy'n gallu tyfu mewn ardal, a lleihau faint o ddŵr yfed sydd ar gael.

Dangoswch y ffilm fer *How Can We Stay Safe as Sea Levels Rise?* i'ch disgyblion, a wnaed gan y Gymdeithas Frenhinol fel rhan o gyfres adnoddau Dosbarth Gwyddoniaeth y Gymanwlad. Mae hi ar gael drwy: https://vimeo.com/191022173

Mae'r ffilm yn cyfleu'r effaith y mae cynnydd yn lefelau'r môr yn ei chael ar gymunedau ar ynysoedd isel Kirabati yn y Môr Tawel. Adroddir bod dwy ynys fach Kiribati eisoes wedi diflannu o dan y dŵr, ac mae'r rhagfynegiad o lefelau môr yn awgrymu y bydd llawer o'r tir o dan ddŵr ymhen canrif.

Yn y ffilm, mae disgyblion o Ysgol Rurubao yn Tarawa, Kirabati, yn cynnal arbrawf i ddangos sut mae cyfaint y dŵr sy'n cynhesu yn cynyddu, gan gyfrannu at gynnydd yn lefelau'r môr. Mae'r arbrawf i'w weld yn adnodd Dosbarth Gwyddoniaeth y Gymanwlad *Rising Sea Levels: How do we stay safe as sea levels rise.*

Beth am gynnal yr un arbrawf a chymharu canlyniadau gyda'ch ysgol bartner?

Bydd angen:

- potel (wydr yn ddelfrydol)
- dŵr (cynnes ac oer)
- gwelltyn
- tac gludiog (e.g. Blu-Tack neu blastisin)
- lliw bwyd (i'w gwneud yn haws gweld y dŵr yn y botel)
- cynhwysydd mwy na'r botel (e.e. twb hufen ia)
- beiro ddu
- thermomedr (dewisol)
- pren mesur

Cyfarwyddiadau:

1. Llenwch y botel gyda dŵr oer, ac ychwanegwch liw bwyd i'w gwneud yn haws gweld y dŵr.
2. Rhowch y gwelltyn yn y botel, a'i gadw yn ei le gyda'r tac gludiog neu blasitisin. Gwnewch yn siŵr bod rhan sylweddol o'r gwelltyn allan o'r botel, a bod y tac gludiog wedi llenwi agoriad y botel nes ei bod yn aerglos.
3. Rhowch y botel y tu mewn i'r cynhwysydd mawr.
4. Marciwch lefel bresennol y dŵr ar y gwelltyn gan ddefnyddio'r feiro ddu.
5. Ychwanegwch y dŵr cynnes i'r cynhwysydd mawr.
6. Gwyliwch lefel y dŵr yn y gwelltyn am bum munud, a sylwch beth sy'n digwydd.

Gallai'r ymarferiad ychwanegol canlynol fod yn weithgaredd ychwanegol i ddisgyblion hŷn:

1. Gwnewch farc ar draws eich gwelltyn bob hanner centimedr.
2. Mesurwch dymheredd y dŵr y tu mewn i'r botel drwy roi thermomedr ynddi, drws nesaf i'r gwelltyn.
3. Mesurwch lefel y dŵr yn y gwelltyn a thymheredd y dŵr bob 10 eiliad.
4. Ewch ati i greu graff o'ch canlyniadau.

Rhannwch a thrafodwch eich canlyniadau gyda'ch ysgol bartner. Gallech dynnu llun i ddangos sut mae lefel y dŵr yn newid dros amser, neu os oes ganddoch chi, defnyddiwch feddalwedd cyflymu fideo neu animeiddiad rhewi fframiau i greu fideo byr o'r arbrawf.

HER 3
Creu ymgyrch yn y wasg

Cadwyn o ynysoedd oddi ar arfordir dwyreiniol Affrica yw'r Seychelles. Maen nhw hefyd yn wynebu peryglon newid hinsawdd a chynnydd yn lefelau'r môr. Mae'r peryglon hyn yn cynnwys erydiad tir, colli dŵr croyw, riffiau cwrel yn marw, a digwyddiadau tywydd eithafol yn fwy aml. Er mwyn tynnu sylw at y peryglon hyn ac annog pobl i ddiogelu cefnforoedd y byd, gwnaeth Arlywydd yr Ynysoedd araith yn 2019 mewn siambr danddwr 400 troedfedd o dan Gefnfor India. Yn ei araith, dywedodd, "Mae'n rhaid i ni wneud yr hyn sydd angen ei wneud. Mae'r gwyddonwyr wedi codi'u lleisiau."

Gofynnwch i'ch disgyblion os ydyn nhw'n credu bod hyn yn ffordd effeithiol o gynyddu ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â newid hinsawdd, lefelau môr yn codi, a diogelu moroedd y byd. Allan nhw feddwl am syniadau creadigol eraill am ymgyrchoedd a allai dynnu sylw at y problemau byd-eang hyn?

Rhannwch y disgyblion yn grwpiau bach. Gofynnwch iddyn nhw feddwl am fater penodol yn ymwneud â'r amgylchedd maen nhw'n pryderu yn ei gylch, a gwnewch rywfaint o ymchwil arno. Er enghraifft, mae'n bosib y bydd ganddyn nhw ddiddordeb mewn lleihau faint o blastig sydd i'w gael ym moroedd y byd. Yn ôl Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd, amcangyfrifir bod wyth miliwn tunnell o blastig yn mynd i'r môr bob blwyddyn.

Gofynnwch iddyn nhw gynllunio ymgyrch i dynnu sylw at y maes ac eirioli dros newid. Gallen nhw ddechrau drwy greu mapiau meddwl i archwilio eu syniadau a thrafod sut gallen nhw ddenu sylw at eu hachos.

Os byddan nhw'n penderfynu ar ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, gofynnwch iddyn nhw pa hashnod fydden nhw'n ei ddefnyddio. Ar ôl iddyn nhw benderfynu, anogwch nhw i ddangos eu syniadau ar daflen fawr o bapur. Arddangoswch y rhain a'u rhannu gyda'ch ysgol bartner.

Gallai'r disgyblion hŷn wneud rhai o'r gweithgareddau sydd yn yr adnodd *Radical Reads Strike for Climate Change.* Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sefydlu Pwyllgor Argyfwng Hinsawdd (yn cynnwys disgyblion, staff, rhieni ac aelodau o'r gymuned leol) i archwilio beth all eich ysgol ei wneud i wneud gwahaniaeth.
- Siarad gyda chyd-ddisgyblion, teuluoedd ac athrawon – gan ddweud wrthyn nhw pam eich bod chi'n poeni am newid hinsawdd.
- Creu gwaith celf, murluniau a digwyddiadau byw i ledaenu'r gair.
- Trafod beth allwn ni ei wneud fel unigolion i gyfrannu at atal newid hinsawdd yn ein cymunedau.
- Rhannu lluniau a fideos gyda'ch partneriaid ac ar y cyfryngau cymdeithas, a thagio arweinwyr.

Dysgu Mwy:

Mae adnoddau eraill i'ch helpu i ddysgu mwy am y pwnc hwn yn cynnwys:

https://www.un.org/sustainabledevelopment/sustainable-development-goals//

Adnodd y British Council/y Gymdeithas Frenhinol 'Rising Sea Levels' o gyfres Dosbarth Gwyddoniaeth y Gymanwlad. Mae fersiwn lawn o'r pecyn ar gael drwy: https://www.britishcouncil.org/school-resources/find/classroom/rising-sea-levels

Mae'r pecyn Cefnforoedd y Gymanwlad wedi'i gynllunio gyda'r nod o wella llythrennedd ar gefnforoedd a dod â byd rhyfeddol y cefnfor yn fyw. Mae hwn ar gael drwy: https://www.britishcouncil.org/school-resources/find/classroom/our-commonwealth-oceann

Mae rhagor o wybodaeth am Newid Hinsawdd a sut mae pobl ifanc yn ymateb ar gael drwy: https://www.bbc.co.uk/news/science-environment-24021772

https://group.sciencemuseum.org.uk/project/climate-science/

Mae adnoddau gwyddoniaeth eraill gan y Gymdeithas Frenhinol ar gael drwy'r dolenni canlynol:

Newid hinsawdd: tystiolaeth ac achosion: http://www.royalsociety.org/topics-policy/projects/climate-evidence-causes/

Y Gymdeithas Frenhinol, Gwydnwch i dywydd eithafol: http://www.royalsociety.org/topics-policy/projects/resilience

Mae adnoddau a gweithgareddau i ddatblygu sgiliau llafaredd, gan gynnwys areithiau, ar gael drwy adnodd y British Council It's Good to Talk drwy: https://www.britishcouncil.org/school-resources/find/classroom/its-good-talk

Mae rhagor o wybodaeth am waith Greta Thunberg ar gael yn y sleidiau a'r nodiadau i athrawon ar gyfer *Radical Reads: Strike for Climate Change*

Life Under the Sea

Llyfrau:

Greta Thunberg *No One is too Small to Make a Difference* Llyfrau Penguin

Michael Morpurgo *This Morning I Met a Whale* Gwaith ffuglennol sy'n archwilio sut gall plant ledaenu'r neges am newid hinsawdd a gofalu am y blaned.

CONNECTING CLASSROOMS

Ariannwyd y prosiect hwn yn rhannol gyda chymorth y Deyrnas Unedig gan bobl Prydain. Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygiad sy'n arwain ar waith gwledydd Prydain i ddod â thlodi eithafol i ben. Rydyn ni'n mynd i'r afael â heriau byd-eang ein hoes, gan gynnwys tlodi, addysg i bawb, iechyd, newid hinsawdd, cydraddoldeb rhywedd, a heddwch a chyfiawnder. Mae cymorth y Deyrnas Unedig yn helpu i adeiladu byd mwy diogel, iach a ffyniannus.

Mae Connecting Classrooms yn cynnig ystod o adnoddau am ddim i'r ystafell ddosbarth y gellir eu llwytho i lawr, sydd ar gael i athrawon ledled y byd. Mae'r adnoddau hyn, sy'n seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, wedi'u cynllunio i addasu i unrhyw gwricwlwm. Maen nhw'n cynnig syniadau creadigol a diddorol i ddod â gwybodaeth a sgiliau craidd yn fyw yn y dosbarth, ac i ysbrydoli disgyblion i weithredu ar faterion byd-eang. Mae gwybodaeth am ein hadnoddau dysgu byd-eang sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â phynciau sy'n bwysig i lywodraethau o gwmpas y byd yma: https://connecting-classrooms.britishcouncil.org/resources/global-learning-resources

Mae Connecting Classrooms yn cynnig datblygiad proffesiynol ar-lein am ddim ar gyfer sgiliau craidd a chydweithio rhyngwladol, gan helpu athrawon ac arweinwyr ysgolion i baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd a gwaith mewn economi fyd-eang. Mae'r rhaglen hefyd yn cefnogi partneriaethau rhwng ysgolion ledled y byd gydag ysgolion yng ngwledydd Prydain i rannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad gydag athrawon eraill. Mae rhagor o fanylion ynghylch sut i ddod o hyd i ysgol bartner ar gael yma: https://connecting-classrooms.britishcouncil.org/ partner-with-schools/find-partner

© British Council [2019]. Cedwir pob hawl.

Mae'r cyhoeddiad hwn at ddefnydd astudio preifat neu yn yr ystafell ddosbarth yn unig. Os byddwch yn dymuno ailgynhyrchu, sganio, trosglwyddo neu ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn neu ran ohono at ddiben arall, cysylltwch â'r British Council i gael caniatâd ysgrifenedig.